



CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND

CYNLLUN CORFFORAETHOL
2016-17

Clawr: Guide Dogs Family Focus

Gall plant ifanc â namau gweledol fwynhau ystod o weithgareddau sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol. Mae'r prosiect Family Focus yn anelu at gynorthwyo datblygiad y plant hyn a'u helpu cyrraedd eu potensial.

Cyflwyniad

Y llynedd, disgrifiodd ein Cynllun Blynyddol flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gyflwyno Galluogi Pobl i Arwain. Eleni gwelir y weledigaeth honno yn cael ei rhoi ar waith trwy lansio portffolio newydd Yr Alban, y rhaglen People and Communities newydd yng Nogledd Iwerddon a Creu Eich Lle yng Nghymru – y maent oll wedi dangos sut y gallwn ni adeiladu ar gryfderau pobl a chymunedau.

Yn Lloegr mae ein menter Menywod a Merched a'r rhaglen Help through Crisis wedi galluogi ni i brofi dulliau gweithio newydd ochr yn ochr â deiliaid grant, gyda'r pwyslais ar adeiladu ar gryfderau pobl a dysgu wrth i ni symud ymlaen.

Mae dysgu wrth i ni symud ymlaen yn thema bwysig ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd profi dulliau gweithio newydd a rhannu profiadau ar draws ein portffolios amrywiol yn galluogi ni i barhau i gyflwyno ein dyheadau Galluogi Pobl i Arwain. Mae'n helpu sicrhau bod y systemau a phrosesau a ddefnyddiwn i wneud grantiau'n gymesur hefyd.

Rydym yn datblygu ein rôl fel catalydd hefyd; bydd y gyd-drafodaeth rydym wedi'i sbarduno ar 'Ddyfodol Gwneud Lles' yn cyfeirio sut rydym yn datblygu ein prosesau gwneud grantiau – a hefyd yn helpu eraill i ymdrin â heriau a datblygu modelau newydd ar gyfer creu gwerth cymdeithasol.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn bwynt monitro pwysig i ni. Mae'n amlinellu'r mesurau sy'n ein helpu i sbarduno gwelliannau parhaus wrth wneud grantiau ac yn ein gweithgareddau ehangach.

Mae ein blaenoriaethau eleni'n adeiladu ar flaenoriaethau ein cynllun blaenorol. Yn gyntaf mae angen i ni barhau i gyflwyno'n Fframwaith Strategol – sef sut rydym yn gwireddu Galluogi Pobl i Arwain, a pharhau i wneud grantiau i brosiectau gwych – ein busnes craidd. Byddwn yn gwneud hyn tra'n cadw ein costau i lawr a hefyd mwyafu'r buddion sy'n deillio o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol ar gyfer pobl a chymunedau.

Mae'n rhaid i ni barhau i ddychwelyd eto at brosesau er mwyn iddynt fod yn fwy cymesur a seiliedig yn gynyddol ar gwsmeriaid, a datblygu ein pobl a'r offer y mae ei angen arnynt i weithio hyd eithaf eu gallu.

Mae'r cynllun hwn yn pennu ystod o fesurau a thargedau ar gyfer y blaenoriaethau hyn o fewn cyd-destun ein Fframwaith Strategol. Mae'n sefyll ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol, sy'n adrodd ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dawn Austwick
Prif Weithredwr

Peter Ainsworth
Cadeirydd



**Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr –
Digwyddiad Amlddiwylliannol Llanelli**
Dyluniwyd y digwyddiad hwn i ddod â'r gymuned
ynghyd a dathlu amrywiaeth yr ardal, Roedd pobl
yn gallu cymryd rhan yn llawn mewn gweithdai,
cerddoriaeth a bwyd, a rhoi cynnig ar bethau efallai
nad oeddent wedi'u cael o'r blaen.

Amdanom ni

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol, ar hyd braich o'r llywodraeth, sy'n gweithio ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Rydym yn gyfrifol am ddosbarthu 40 y cant o'r holl arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol – yn 2016/17 disgwyliwn ddyfarnu tuag £800 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd.

Mae ein hariannu'n wahanol i wariant y llywodraeth ac yn treiddio i bob cymdogaeth yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt, gyda dyfarniadau'n amrywio o rai cannoedd o bunnoedd i grantiau gwerth sawl miliwn o bunnoedd.

Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi dibenion iechyd, addysg, amgylcheddol ac elusenol cyffredinol. Mae ein rôl ni fel stiward arian achosion da gan y cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol yn caniatáu i ni gefnogi miloedd o bobl a phrosiectau ysbrydoliaethus ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae mwy o wybodaeth amdanom ni, gan gynnwys ein trefniadaeth, ar ein gwefan yma: biglotteryfund.org.uk/welsh/about-big/our-people

Ein ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod

Lansiwyd ein Fframwaith Strategol yn 2015 – gan ddisgrifio ein bwriad ac ymagwedd ar gyfer y Gronfa hyd at 2021 at 'Alluogi Pobl i Arwain'. Mae'n arwain ni trwy'r dewisiadau a wnawn a gellir ei lawrlwytho yn: biglotteryfund.org.uk/welsh/about-big/strategic-framework

Ein ffocws yn ail flwyddyn y Fframwaith Strategol yw ymgorffori'r ymagwedd hon ymhellach yn ein hariannu a chyflwyno rhaglen newid uchelgeisiol ar draws y mudiad i brofi a gweithredu dulliau gweithio newydd a sicrhau bod gennym yr offer a'r sgiliau i gyflwyno ein gweledigaeth.

Rydym wedi pennu tri amcan corfforaethol i sicrhau ein bod yn defnyddio arian achosion da'r Loteri Genedlaethol yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n cyfateb i'n cenhadaeth a Chyfarwyddiadau Polisi gan y Llywodraeth. Mae pob amcan yn cynnwys blaenoriaethau a thargedau ymarferol ar gyfer symbylu perfformiad. Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ein perfformiad wrth roi'r cynllun hwn ar waith trwy ein fframwaith adrodd ar berfformiad.

Amcan un

Ein datganiad

Byddwn yn cyflwyno'r Fframwaith Strategol trwy roi rhaglen newid sefydliadol ar waith sy'n ymgorffori'r chwe strategaeth alluogi, tra'n parhau i ymgorffori ein hegwyddorion arweiniol ar bob lefel o gynllunio busnes, gwneud penderfyniadau a chyflwyno.

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn aiddylunio ein prosesau gwneud grantiau craidd i sicrhau eu bod yn gymesur, effeithlon ac yn seiliedig ar gwsmeriaid a byddwn yn datblygu rhaglenni ariannu newydd sy'n ymgorffori'r gwelliannau hyn.
- Byddwn yn buddsoddi yn natblygiad ein pobl er mwyn iddynt gyflwyno'n hyderus yn erbyn ein hegwyddorion.
- Byddwn yn gwella'n hymagwedd at ddigidol ym mhob agwedd ar ein gwaith, gan fwyafu'r potensial y mae'n ei gynnig i ni fod yn fwy dyngar a chysylltiedig ac i gataleiddio dysgu.

Targed blynyddol

- Byddwn yn cyflwyno rhaglen newid sefydliadol sy'n gweddu i weithredu'r Fframwaith Strategol yn llwyddiannus.

Ein hegwyddorion yw:

1

Hyder, nid rheolaeth

Mae gennym ffydd mewn gallu pobl i beri i bethau gwych ddigwydd, gan gredu y dylai ein hariannu alluogi yn hytrach na rheoli.

2

Cryfderau pobl

Rydym yn dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, a'r potensial yn eu syniad.

3

Catalydd i bobl eraill

Rydym yn gwranddo ar, dysgu gan, gweithredu ar ac yn hwyluso'r pethau sydd o bwys i bobl, cymunedau a'n partneriaid.

4

Prosesau syml, barn dda

Rydym yn defnyddio prosesau syml a chymesur sy'n ein galluogi i ffurfio barn dda.

5

Cyfeiriad a rennir, ymagweddau amrywiol

Rydym yn gwerthfawrogi gwahaniaethau ar draws y Deyrnas Unedig yn y ffordd a weithiwn, yn gyson o ran yr ansawdd a'r cyfleoedd a gynigiwn, ac yn cefnogi pobl i daclo anghydraddoldeb.

6

Defnyddio adnoddau'n dda

Rydym yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr adnoddau a roddir i ni gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol: gyda gwybodaeth, gyda phobl a gydag arian, ac mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

Amcan dau

Ein datganiad

Byddwn yn dangos y gwahaniaeth y mae ein hariannu'n ei wneud i bobl a chymunedau'n well a byddwn yn peilota ystod o fesurau i gefnogi hyn. Caiff hyn ei ategu gan ymagwedd gwneud grantiau sy'n canolbwyntio ar fod yn glir, syml a chymesur ac wedi'i harwain gan ofynion data a gwerthuso priodol.

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn datblygu fframwaith ar gyfer mesur pa mor bell y mae'r gwaith a ariannwn yn ei gyrraedd. Bydd hwn yn gam ychwanegol tuag at ystyried y ffordd orau i ni fesur effaith ar draws ein hystod ariannu.
- Byddwn yn gwella'n hisadeiledd i gefnogi adnabod a rhannu gwybodaeth sy'n dangos effaith ein hariannu, yn helpu

- rhannu dysgu ac yn cefnogi ni i wneud penderfyniadau gwybodus am y cymunedau a gefnogwn.
- Byddwn yn mireinio'n gofynion data craidd er mwyn i gywain data cwsmeriaid fod yn gymesur ac yn briodol, ac ar yr un pryd gweithredu fel catalydd i eraill trwy ddefnyddio ein data i ddeall yn well a rhannu'r gwahaniaeth a ddaw yn sgil defnyddio arian loteri.
- Byddwn yn annog dysgu a byddwn yn profi dulliau gweithio newydd er mwyn cefnogi unigolion a chymunedau i gyflawni eu dyheadau. Bydd hwn yn ffurfio rhan allweddol o ddatblygu portffolios ariannu Cymru yn 2016–17.

Targed blynyddol

- Mae o leiaf 77% o gwsmeriaid yn fodlon ar ein gwasanaeth.

Amcan tri

Ein datganiad

Byddwn yn mwyafu effaith ein hariannu trwy fod yn hyblyg ac effeithlon wrth reoli ein hadnoddau i sicrhau ein bod yn gorff gwneud grantiau effeithiol.

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn rheoli ein costau wrth gyflwyno rhaglenni a ariennir gan y loteri er mwyn bod yn effeithlon a rhyddhau cymaint o arian dros roi grantiau ag y gallwn. Byddwn yn cyllidebu ar gyfer costau na fyddant yn fwy na 7 y cant o'n hincwm.
- Byddwn yn parhau i ddarparu cymysgedd o fodolau ariannu ym mhob portffolio sy'n galluogi ystod eang o geisiadau gan gymunedau niferus ac amrywiol i gefnogi ystod o brosiectau a rhaglenni.

- Trwy ein gwaith o gyflwyno'n fframwaith strategol byddwn yn diffinio, datblygu ac yn cyfathrebu ein model busnes newydd, gan sicrhau bod ein hymagwedd yn gostwng maint yr adnodd a ddefnyddiwn i brosesu data ac yn buddsoddi mewn adnoddau ar gyfer y gweithgareddau ychwanegu gwerth sy'n cefnogi ein hymgeiswyr a deiliaid grant.

Targed blynyddol

- Mae'r cyfanswm gwariant ar gostau gweithredu (costau craidd a rheng flaen) o fewn 7 y cant o incwm y Loteri Genedlaethol.
- Mae o leiaf 85 y cant o'r cyfanswm cyllideb grant gytunedig ar gyfer 2016–17 wedi'i ymrwymo.
- Byddwn yn prosesu o leiaf 95 y cant o geisiadau ariannu ymatebol o fewn yr amseroedd cwblhau rydym wedi'u cyhoeddi.

Cyllidebau Grant

Mae ein cyllidebau ar gyfer 2016–17 fel a ganlyn:

Cyllideb Gymeradwy
2016–17 £m

Lloegr	556.4
Yr Alban	97.7
Cymru	41.6
Gogledd Iwerddon	31.9
Deyrnas Unedig	80.7
Cyfanswm Cyllideb	808.2

Mae'r gyllideb grant ar gyfer pob un o'n rhaglenni cynlluniedig yn 2016–17 fel a ganlyn:

Rhaglenni Lloegr	Cyllideb Gymeradwy 2016–17 £m
A Better Start	1.8
ARR Advice Services Transition Fund	0.0
Ageing Better	0.5
Arian i Bawb Lloegr 09	65.7
Building Better Opportunities	144.6
Commissioning Better Outcomes	27.4
Growth Fund solicitation – MDF	1.0
HeadStart	65.4
Help through Crisis	4.0
Multiple and Complex Needs	0.2
Parks for People	13.7
Reaching Communities	200.0
Reaching Communities Buildings	23.7
Talent Match	1.2
Cyllideb ar gyfer datblygu rhaglenni pellach	7.2
	556.4

Cyllideb Gymeradwy
2016–17 £m

Rhaglenni'r Alban

Arian i Bawb Yr Alban 2014	9.0
Business Support Arrangements	0.8
Capital Mentors ARR	0.4
Community Led Large	2.5
Community Led Medium	7.8
Digital Communications ARR	0.2
EU Financial Inclusion	9.5
Growing Community Assets	1.1
Improving Lives Large	9.8
Improving Lives Medium	13.8
Investing in Communities 2: GCA	13.3
Investing in Communities 2: LT	9.9
Investing in Communities 2: TFL	14.4
Investing in Ideas	0.8
Learning ARR	0.4
Our Place	2.5
Young Start	1.0
Cyllideb ar gyfer datblygu rhaglenni pellach	1.0
	97.7

Cyllideb Gymeradwy
2016–17 £m

Rhaglenni Cymru

Arian i Bawb Cymru 09	3.5
Trosglwyddo Asedau Cymunedol 2	4.4
Creu Eich Lle	6.4
Pawb a'i Le 2	18.1
Tlodi Gwledig	2.0
Pecyn Cefnogaeth	0.2
Cefnogaeth Trydydd Sector	4.0
Cyllideb ar gyfer datblygu rhaglenni pellach	2.9
	41.6

Cyllideb Gymeradwy
2016–17 £m

Rhaglenni Gogledd Iwerddon

Sbarduno Syniadau	2.0
Arian i Bawb Gogledd Iwerddon	4.5
Empowering Young People	9.4
Empowering Young People ARR	0.9
Impact of Alcohol GI gyfan	0.6
People and Communities NI	10.0
Reaching Out – Connecting Older People	1.6
Reaching Out – Empowering Young People	2.4
Gwaith Ymgyrchu Grantiau Bach	0.5
	31.9

Cyllideb Gymeradwy
2016–17 £m

Rhaglenni Deyrnas Unedig

Sbarduno Syniadau	56.0
Sgiliau Sylfaenol Ar-lein	6.7
Cymunedau Rhyngwladol	14.0
Prosiectau'r Bobl	4.0
	80.7
Cyfanswm Cyllideb	808.2

Sylwer mai teitlau drafft yw'r rhai ar gyfer rhaglenni newydd, ac y gallent newid pan gaiff pob rhaglen ei lansio.

Cynhyrchir y dadansoddiad drafft hwn o'r gyllideb cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac mae'n destun addasiadau pellach, gyda chymeradwyaeth gan y Bwrdd, i gario ymlaen unrhyw danwariant y mae'r cyfrifon diwedd blwyddyn yn ei nodi yn y gyllideb grantiau 2015–16.

Yn ogystal â hyn, wrth i ni ddatblygu ein portffolio ariannu, gall y symiau a ddyrennir gael eu mireinio o fewn cyfanswm cyffredinol y gyllideb grant. Gall cyllidebau grant gael eu hamrywio hefyd gyda chymeradwyaeth gan y Bwrdd wrth ymateb i newidiadau mewn incwm gan y Loteri.

Cyllideb costau gweithredu

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o incwm y Loteri Genedlaethol a wariwn ar ddosbarthu, a pharhawn i reoli'r costau hynny i lawr.

Mae gennym drothwy targed costau gweithredu ar gyfer costau gweinyddu craidd o 5%, gyda 3% pellach ar gyfer cefnogaeth rheng flaen i ymgeiswyr grant. Rydym wedi cyllidebu i gyflawni cyfanswm cyllideb costau gweithredu o 7 y cant o incwm y Loteri Genedlaethol. Y cyfanswm cyllideb ar gyfer 2016–17 yw £51.8 miliwn.

Cyflawnwyd arbedion yn 2014–15 yn dilyn ailstrwythuro mewnol. Mae lefelau staffio wedi'u cynnal trwy gydol 2015–16 ond rydym wedi lleihau ein cyfanswm gwariant ar gostau gweithredu ymhellach. Byddwn yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd yn ein prosesau craidd yn ystod 2016–17 er mwyn buddsoddi mewn adnoddau priodol ar gyfer meysydd gwerth ychwanegol ein gwaith er mwyn adlewyrchu uchelgeisiau Galluogi Pobl i Arwain.



Pedal Power

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio beicio i ddod â chymunedau ynghyd a helpu pobl byw bywydau iach a hapus. Mae croeso i unrhyw un o unrhyw oedran neu allu gael gwersi beicio neu ymuno â digwyddiadau beicio.



CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND

cronfaloterifawr.org.uk
0300 123 0735

facebook.com/biglotteryfundwales
twitter.com/loterifawrcymru

BLF16_01014



Yn dyfarnu arian

Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from

The National Lottery®